# Adnewyddu arwynebeddau chwaraeon artiffisial

## Trosolwg

Mae'r safon hon ar gyfer y rheiny sydd yn adnewyddu arwynebeddau chwaraeon artiffisial sydd hefyd yn cynnwys atgyweirio.

Os ydych yn gweithio gyda chemegau neu beiriannau dylech fod wedi cael hyfforddiant ac yn meddu ar ardystiad cyfredol lle bo angen yn unol â deddfwriaeth berthnasol.

Mae'n rhaid i chi wneud eich gwaith mewn ffordd fydd yn lleihau'r effaith ar yr amgylchedd naturiol ac yn gwella ei werth o ran natur, cadwraeth a hamdden.

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

1. asesu'r risg sydd yn gysylltiedig â'r gweithgaredd i'w gyflawni
2. cadarnhau bod dillad ac offer amddiffynnol personol (PPE) yn cael eu gwisgo
3. cynnal arolygiadau o arwynebeddau chwaraeon artiffisial ar gais
4. nodi unrhyw amodau sy'n effeithio ar ansawdd yr arwynebeddau chwaraeon artiffisial
5. hysbysu'r rheiny sy'n gyfrifol am yr arwynebeddau chwaraeon artiffisial ynghylch hyn
6. dewis, paratoi a defnyddio'r offer, y cyfarpar a'r deunyddiau sy'n ofynnol i adnewyddu arwynebeddau chwaraeon artiffisial yn ddiogel ac yn gywir
7. defnyddio dulliau a thechnegau perthnasol i gynnal arwynebeddau chwaraeon artiffisial, offer a therfynau allanol
8. gwneud gwaith atgyweirio ac adnewyddu yn brydlon ac yn gywir
9. gwaredu gwastraff a deunyddiau dros ben yn ddiogel ac yn gywir yn unol â gofynion sefydliadol a deddfwriaeth berthnasol
10. glanhau, cynnal a chadw a storio offer a chyfarpar yn ddiogel ac yn gywir
11. cadarnhau bod y gwaith yn cael ei wneud yn unol â deddfwriaeth amgylcheddol ac iechyd a diogelwch perthnasol, gofynion asesu risg, codau ymarfer a pholisïau sefydliadol

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

*Mae angen i chi wybod a deall:*

1. sut i adnabod peryglon ac asesu risg
2. y math o ddillad ac offer amddiffynnol personol (PPE) sydd yn addas ar gyfer y gweithgaredd
3. ffynonellau gwybodaeth yn ymwneud â'r deunyddiau a'r dulliau a ddefnyddir i adnewyddu arwynebeddau chwaraeon artiffisial, offer a therfynau allanol
4. sut i adnabod, dewis a pharatoi'r offer, y cyfarpar a'r deunyddiau sydd eu hangen ar gyfer adnewyddu arwynebeddau chwaraeon artiffisial
5. y dulliau a'r technegau sy'n ofynnol i gynnal arwynebeddau chwaraeon artiffisial, offer a therfynau allanol
6. y safonau cynnal a chadw y dylech eu cyflawni
7. y perygl o niweidio'r ardal gyfagos a nodweddion eraill wrth adnewyddu arwynebeddau chwaraeon artiffisial a sut i atal hyn
8. sut i drin, cludo a gwaredu gwastraff yn unol â gofynion cyfreithiol a sefydliadol perthnasol
9. pwysigrwydd dilyn arfer gorau amgylcheddol ac ecolegol perthnasol i leihau effaith eich gwaith ar yr amgylchedd
10. pwysigrwydd adfer y safle i gyflwr glân a thaclus ar ôl yr adnewyddu
11. sut i lanhau, cynnal a chadw a storio offer, cyfarpar a deunyddiau sy'n ofynnol ar gyfer adfer arwynebeddau chwaraeon artiffisial yn gywir ac yn ddiogel
12. eich cyfrifoldebau yn unol â deddfwriaeth amgylcheddol ac iechyd a diogelwch, codau ymarfer a pholisïau sefydliadol perthnasol

## Geirfa

Mae gwaith atgyweirio ac adnewyddu yn cynnwys: dyfrhau, nodi a thynnu difwynwyr.

Manylebau: darluniau, amserlenni, datganiadau dull, Gweithdrefnau Gweithredu Safonol (GGS), canllawiau cynhyrchwyr, polisïau sefydliadol

Adnewyddu arwynebeddau chwaraeon artiffisial

| | |
|---|---|
| **Datblygwyd gan** | Lantra |
| **Dyddiad cymeradwyo** | 31 Ion 2019 |
| **Dyddiad Adolygu Dangosol** | 31 Ion 2024 |
| **Dilysrwydd** | Ar hyn o bryd |
| **Statws** | Gwreiddiol |
| **Sefydliad cychwynnol** | Lantra |
| **RCU gwreiddiol** | LANH64 |
| **Galwedigaethau perthnasol** | Garddwr, Gofalwr Tir, Tirluniwr |
| **Cyfres/Set** | Garddwriaeth |
| **Geiriau Allweddol** | chwaraeon; maes chwarae; atgyweirio |